# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 30/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Siarcod Benthyg

***11. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i atal pobl rhag cael eu dal gan siarcod benthyg arian. OAQ(3)3265(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hollol gefnogol o'r gwaith hanfodol y mae'r uned benthyca arian anghyfreithlon yn ei wneud ledled Cymru i fynd i'r afael â benthycwyr arian didrwydded. Byddwn yn gweithio gyda'r uned at y perwyl hwn a byddwn hefyd yn hybu gweithio gydag undebau credyd i hyrwyddo credyd fforddiadwy fel opsiwn amgen i fenthyca arian anghyfreithlon.

### Economi Gogledd Cymru

***12. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr economi yng Ngogledd Cymru. OAQ(3)3261(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Fel gweddill Cymru, mae'r dirwasgiad wedi effeithio'n wael ar y gogledd. Mae gwelliannau diweddar i'r farchnad lafur i'w croesawu ond mae risgiau mawr yn bodoli o hyd.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)3276(FM), yn ôl.*

### Blaenoriaethau Addysg

***14. Darren Millar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru. OAQ(3)3269(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n blaenoriaethau wedi newid ers 'Cymru'n Un', er bod mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad yn yr economi. Yr ydym hefyd yn gobeithio newid o gostau cymorth i'r rheng flaen drwy ein hadolygiad o adnoddau rheng flaen er mwyn sicrhau y bydd dysgwyr yn cael canran uwch o'r cronfeydd yn uniongyrchol yn y dyfodol.

### Blaenoriaethau ar gyfer Plant

***15. Jenny Randerson:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer plant ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. OAQ(3)3270(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae ein saith amcan craidd yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i blant a phobl ifanc. Yr ydym am i bob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn, ac i gefnogi hynny, rydym yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y broses o wneud polisïau ac yn cymryd camau i ddileu tlodi plant.